**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C** **Cyfarfod Rhif 411**
**26 Hydref, 2017, S4C Caernarfon**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Awdurdod) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Huw Jones | (Uwch Swyddog Dadansoddi) |
| **Ymddiheuriadau:** | Guto Harri | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Awdurdod) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Croesawyd Owen Evans i'w gyfarfod Awdurdod cyntaf.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 410, a gynhaliwyd ar 28ain o Fedi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 410 (28.09.17).

Nodwyd fod angen trefnu dyddiad ar gyfer y Pwyllgor Cwynion.

**Cymeradwyodd yr Awdurdod gofnodion cyfarfod 28 Medi.**

2.1 **Materion yn Codi**

**Eitem 3.1.6./DCMS**

Nodwyd fod llythyr wedi'i ddanfon i DCMS parthed paratoadau ar gyfer Cyllideb y Canghellor ym mis Tachwedd yn atgoffa'r Ysgrifennydd Gwladol am yr angen i sicrhau'r gallu i ymateb i argymhellion yr Adolygiad maes o law.

[**Crynodeb:** Trafodwyd sefyllfa Ystâd S4C yn Llanisien a'r cyngor diweddaraf gan yr asiant eiddo. Nodwyd yr opsiynau ar gyfer gwerthu'r Ystâd. Penderfynwyd y dylai swyddogion barhau i baratoi gwaith dichonolrwydd ar gyfer gwerthu'r ystâd.]

2.2 **Penodi Aelodau**

Cafwyd trafodaeth am ddulliau posibl o benodi aelodau i fwrdd unedol arfaethedig, gan nodi fod model y BBC yn caniatáu i'r aelodau gweithredol gael eu penodi gan y Cadeirydd a'r aelodau anweithredol, ond hefyd elfen o'r aelodau anweithredol.

Nodwyd y byddai angen sicrhau fod gan yr aelodau anweithredol y gallu i benodi'r aelodau gweithredol, ac y byddai angen dilyn proses benodiadau cyhoeddus ar gyfer gweddill yr aelodau.

2.3 **Cynlluniau Archifo Llyfrgell Genedlaethol**

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at dystiolaeth y Llyfrgell i adolygiad S4C a'r awydd i gryfhau'r bartneriaeth. Gofynnir i CHR am ddiweddariad.]

2.4 **Ofcom**

Roedd swyddogion wedi trafod perthynas S4C ag Ofcom gyda'r Adolygydd. Roedd yr Adolygydd yn ymwybodol o'r berthynas bresennol, a'r dyletswyddau ar S4C ac Ofcom o ran rheoleiddio gwasanaeth S4C.

Cyfeiriwyd at Drwydded Gwasanaethau'r BBC sydd wedi ei gyhoeddi gan Ofcom. Nodwyd fod y drwydded yn cynnwys nifer o ofynion meintiol penodol iawn ar y BBC. Pe byddai S4C yn gorfod cydymffurfio gyda gofynion a chwotâu o'r fath fe fyddai'n llyffetheirio gallu S4C i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau a fyddai'n ymateb i ofynion y gynulleidfa.

Pwysleisiwyd i'r Adolygydd yr angen i ystyried pa broblem sy'n cael ei datrys yn y berthynas rhwng S4C ac Ofcom, yn hytrach na'r angen i ddileu sefyllfa unigryw yn unig. Roedd gwahaniaethau mawr rhwng trwydded y BBC a thrwyddedau eraill Ofcom ar gyfer ITV, Channel 4 a Channel 5.

Nodwyd fod dyletswydd statudol yr Awdurdod i ganfod barn y gynulleidfa am y gwasanaeth – cyn ac ar ôl darlledu, yn unigryw i S4C. Roedd y ddyletswydd hon yn sicrhau fod gan S4C ddealltwriaeth o anghenion y gynulleidfa, ac felly y dylai hyn arwain strategaeth S4C yn hytrach na chwotâu meintiol rheoleiddiwr.

2.5 **BBC – Y Cytundeb Partneriaeth a Chytundeb y TSA**

Cyflwynodd PW ddiweddariad ar y trafodaethau gyda'r BBC parthed y Cytundeb Partneriaeth a chyflwynodd EM ddiweddariad o ran y Cytundeb TSA.

Roedd cynnwys y Cytundeb Partneriaeth wedi ei gytuno, ac eithrio 2 gymal newydd. Gobeithir y bydd modd i swyddogion gytuno ar y cymalau newydd heddiw, ac yna eu hargymell i'r Cadeiryddion eu cymeradwyo yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd iddynt. Bydd y cytundeb yn cael ei arwyddo ar yr un adeg â'r TSA.

Holwyd a oedd y cytundeb yn esbonio'n glir fod y berthynas flaenorol gyda'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys yr elfennau atebolrwydd a chynrychiolaeth ar yr Awdurdod wedi dod i ben. Nodwyd fod y cytundeb yn cadarnhau hynny a bod newid diweddaraf y BBC yn pwysleisio hynny yng nghyd-destun cynrychiolydd ar yr Awdurdod.

Esboniwyd fod y BBC wedi derbyn cyngor eu cyfreithwyr allanol parthed y TSA ac roedd y BBC ac S4C wrthi'n trafod sylwadau terfynol y cyfreithwyr. Gobeithir y bydd modd dod i gytundeb arwyddo'r TSA yn fuan.

Nodwyd mai'r bwriad gwreiddiol oedd awdurdodi IHJ i arwyddo'r TSA, a gan na fyddai OE wedi cael amser i ystyried y cytundeb yn fanwl cyn arwyddo. Bellach, gyda'r amserlen wedi newid, awgrymwyd y byddai'n fwy addas i OE i arwyddo'r TSA ar ran S4C.

**Penderfynodd yr Awdurdod y dylai OE arwyddo cytundeb y TSA ar ran S4C.**

2.6 **Codiad Cyflog cyffredinol i staff**

[**Crynodeb:** Cyfeiriodd OE at yr argymhelliad ar gyfer codiad cyflog cyffredinol i'r staff a drafodwyd ym mis Medi. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai OE yn ystyried yr opsiynau cyn adrodd yn ôl i'r Awdurdod.]

2.7 **Comisiynydd Gwybodaeth**

Nodwyd nad oedd ymateb pellach wedi ei dderbyn oddi wrth y Comisiynydd.

3. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a Materion yn codi**

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau er gwybodaeth. Nodwyd y bydd y Gofrestr yn cael ei diweddaru a'i chwynnu cyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Penodi SL yn Brif Weithredwr yr Urdd**

Llongyfarchwyd SL ar ei phenodiad yn Brif Weithredwr yr Urdd.
Nodwyd fod trafodaethau'n parhau gyda rhai o ymddiriedolwyr yr Urdd o ran sicrhau y gall Siân barhau'n Aelod o'r Awdurdod ar ôl iddi gychwyn ar ei dyletswyddau gyda'r Urdd. Ni fydd unrhyw gyhoeddiad yn cael ei wneud am aelodaeth Siân nes y bydd dealltwriaeth derfynol ar y mater gyda Bwrdd yr Urdd.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 Roedd wedi derbyn croeso cynnes gan y staff yng Nghaernarfon a Chaerdydd, ac roedd yn mwynhau dod i adnabod y staff a'r sefydliad.

Roedd wedi mynychu cyflwyniad AR i'r cwmnïau cynhyrchu yng Nghaernarfon a Chaerdydd ac wedi ymweld â nifer o gwmnïau cynhyrchu.

Roedd yn awyddus i sefydlu arweinyddiaeth agored a chydweithredol, fyddai'n sicrhau cyfathrebu rheolaidd gyda'r staff a chyfleoedd i drafod datblygiadau

pwysig. Fe ddanfonodd neges fideo i'r staff ar ddiwedd ei wythnos gyntaf yn diolch am y croeso yr oedd wedi ei dderbyn.

Roedd yn ymwybodol o sensitifrwydd prosiectau megis Adleoli a Chydleoli, ac roedd yn awyddus i sicrhau cyfleoedd i'r staff eu trafod yn agored, ond roedd hefyd am sicrhau fod y neges yn glir fod y prosiectau hyn yn gorfod parhau, ac nad oedd cyfle gyda phrif weithredwr newydd i'w dirwyn i ben.

Roedd yn awyddus i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer S4C, a bwriedir ei gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer trafodaeth yn ystod y Diwrnod i Ffwrdd ym mis Ionawr 2018. Bydd y Bwrdd Strategol yn cyfarfod yng Nghaerfyrddin yn fuan i ddechrau'r broses o ddatblygu'r strategaeth.

Cyfeiriodd at ei gyflwyniad a oedd yn cynnwys nifer o gyfleoedd a heriau i S4C, gan gynnwys y Strategaeth Cynnwys, y ddarpariaeth ddigidol, yr Adolygiad, staff S4C, yr Egin, y sector gynhyrchu, y berthynas gyda'r BBC yn lleol ac yn Llundain, cefnogaeth gyffredinol i S4C a materion masnachol. Roedd yn awyddus i ddatblygu strategaeth S4C ar gyfer pob un o'r rhain, gan anelu i'w trafod yn Niwrnod i Ffwrdd yr Awdurdod ym mis Ionawr.

Roedd yn awyddus i lunio strategaeth ar gyfer y ddarpariaeth ddigidol newydd, gan ddatblygu'r wefan, yr Apiau, dewisiadau ar yr iPlayer a dulliau o gyfathrebu'n rheolaidd gyda'r gynulleidfa ar-lein, gan gynnwys negeseuon o'r Ap ac e-byst. Roedd Hansh yn enghraifft o'r math o gynnwys gall apelio i gynulleidfaoedd newydd.

5.2 **Adolygiad**

Roedd cwestiynau ariannol a chylch gorchwyl ar frig rhestr blaenoriaethau'r Adolygiad. O ystyried y cyfyngiadau ariannol ar DCMS, roedd angen ystyried dulliau amgen ar gyfer sicrhau elfennau newydd o gyllid, gan gynnwys dileu'r toriadau arfaethedig, a galluogi S4C i ddelio gydag effaith chwyddiant. Roedd yr Adolygydd yn ymwybodol o'r ffactorau tymor byr, ac yn ogystal yr angen i sicrhau proses ac egwyddorion hir dymor yn eu lle.

Roedd DCMS yn ystyried cyhoeddi'r Adolygiad a'u hymateb ar yr un diwrnod, cyn diwedd y flwyddyn. Bydd angen i S4C ystyried sut i ymateb maes o law, pan fydd amserlen fanwl wedi ei chytuno.

Roedd trafodaethau hefyd ar y gweill gyda thîm yr Adolygiad parthed cyflwyno strwythur bwrdd unedol a diweddaru cylch gorchwyl S4C, ac opsiynau er mwyn cyflawni hynny heb ddeddfwriaeth gynradd.

5.3 **Partneriaethau**

Roedd yr Adolygydd o'r farn fod gan S4C rôl bwysig i'w chwarae o ran datblygu a chynnal partneriaethau, ac o ran cyfrannu at ddyfodol a thwf yr iaith Gymraeg a tharged Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn. Roedd yn awyddus i S4C fabwysiadu agwedd newydd tuag at ddatblygu partneriaethau, a thrwy hynny i ffurfio cysylltiadau gyda'r Llywodraeth a chyrff eraill sy'n ymwneud gyda'r iaith.

Roedd yr Adolygydd yn deall pwysigrwydd y cwestiynau ariannu i S4C, gan gynnwys materion byr dymor, a'r angen i sicrhau fframwaith ac egwyddorion ar gyfer ystyried anghenion ariannol S4C yn y tymor hir. Roedd hefyd yn deall cyd-destun amseru ystyried ariannu S4C yn y dyfodol, a'r angen i sicrhau y byddai

unrhyw broses yn cyd-redeg gydag Adolygiad Gwariant nesaf y Llywodraeth a'r asesiad nesaf o lefel Ffi'r Drwydded.

5.4 **Amrywiaeth**

Nododd OE ei fod wedi penodi CHR yn Bencampwr Amrywiaeth S4C, ac y byddai hi'n cydlynu gweithgareddau S4C yn y maes. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law er mwyn nodi'r sefyllfa bresennol o ran amrywiaeth a'r cynllun ar gyfer cydlynu a datblygu gweithgareddau S4C yn y maes.

5.5 **Adleoli i'r Egin**

[**Crynodeb:** Roedd OE am gynnal trafodaethau agored am Adleoli i'r Egin.]

Roedd yn awyddus i ystyried ffyrdd newydd a hyblyg o weithio er mwyn datblygu a gwella gweithgareddau S4C a sicrhau y byddai'r symud i'r Egin yn llwyddo dros gyfnod o flynyddoedd.

Esboniwyd y bydd staff yn cael mewnbwn i'r broses o gynllunio'r swyddfa a thrafod dulliau gweithio ar gyfer y dyfodol. Roedd yn awyddus iawn i alluogi'r staff i gyfrannu at y gwaith cynllunio er mwyn creu ymdeimlad o berchnogaeth am yr Egin.

Bydd SC yn cyflwyno opsiynau technoleg newydd i'r staff er mwyn iddynt weld beth yw'r posibiliadau ar gyfer dulliau gweithio yn y dyfodol.

5.6 **Y Sector Annibynnol**

Roedd yn awyddus iawn i sefydlu perthynas adeiladol gyda'r sector, ar roedd eisoes wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr nifer fawr o'r cwmnïau cynhyrchu.

Roedd hefyd yn awyddus i barhau i ddatblygu'r strategaeth hyfforddiant er mwyn sicrhau y bydd y sgiliau angenrheidiol ar gael ar gyfer cynhyrchu cynnwys teledu a digidol yn y dyfodol.

5.7 **Y BBC a Chydleoli**

Roedd eisoes wedi cyfarfod Rhodri Talfan Davies er mwyn sefydlu perthynas adeiladol gydag o a'r BBC. Roedd yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu ac ehangu'r berthynas, gan gynnwys cydweithio agosach ar faterion golygyddol.

Roedd hefyd yn awyddus i geisio meithrin cydweithio rhwng y timau technegol a fydd yn uno maes o law o dan ddarpariaethau'r TSA. Bydd angen sicrhau y bydd staff y BBC sy'n gweithio ar wasanaeth S4C yn teimlo perchnogaeth o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau'r gwasanaeth technegol gorau posibl.

5.8 **Pwyllgor Golygyddol**

Roedd yn awyddus i ystyried ffyrdd newydd o gydweithio rhwng adrannau, ac roedd am sefydlu Bwrdd Golygyddol er mwyn cydlynu cydweithio ehangach rhwng yr adrannau Cynnwys, Amserlenni a Hyrwyddo, gydag OE, AR, GW a LlI i gyfarfod yn rheolaidd.

5.9 **Y Bwrdd Masnachol**

Roedd wedi mynychu cyfarfod o'r Bwrdd Masnachol, a chafwyd cyfle i drafod dyfodol y strategaeth fasnachol, a sefyllfa nifer o'r buddsoddiadau presennol mewn manylder.

Diolchodd y Cadeirydd i OE am ei adroddiad a nodwyd fod yr Awdurdod yn awyddus i drafod y pynciau ymhellach yn y Diwrnod i Ffwrdd.

Roedd yr Awdurdod yn falch o glywed am flaenoriaethau OE, a'i awydd i sicrhau fod trafodaethau agored yn digwydd am nifer o bynciau. Roedd sicrhau trafodaeth agored a gonest am Adleoli i'w groesawu'n fawr.

**MATERION CHWARTEROL:**

6. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 23 Hydref**

Cyflwynodd HJ grynodeb o drafodaethau cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 23 Hydref. Roedd crynodeb ysgrifenedig wedi ei ddarparu i'r Aelodau yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor.

[**Crynodeb:** Yn ogystal ag adrodd am y sgyrsiau am gyfresi penodol cyfeiriwyd at y materion canlynol a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor: sef sut i flaenoriaethu ac asesu pwysigrwydd safon a chyrhaeddiad rhaglenni; datblygu talent a sgiliau ym maes rhaglenni dogfen; a'r ddarpariaeth gerddorol a sut i gyflwyno cerddoriaeth gyfoes o fewn arlwy S4C.]

7. **Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 2, 2017-18**

Cyflwynodd AR yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Chwarter 2 2017-18. Esboniodd ei bod yn awyddus i ddatblygu fformat yr adroddiad presennol, gan seilio'r adroddiad ar asesiad o berfformiad y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, ac i'r naratif esbonio'r hyn sy'n cyfrannau at y perfformiad, a'r elfennau sydd ddim yn cyfrannu, yn hytrach na dewis rhaglenni unigol heb gyswllt gyda naratif y perfformiad.

Penderfynwyd y byddai AR yn cyflwyno Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 3 yn y fformat newydd i gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys.

**[Crynodeb:** Cyfeiriodd AR at benawdau'r adroddiad gan nodi cyrhaeddiad y gwasanaeth a lle Newyddion a Pobol y Cwm yn yr amserlen er mwyn denu cynulleidfa ar gyfer yr oriau brig.**]**

8. **Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio, a chyfeiriwyd yn benodol at Bang a nodwyd y bydd y Pwyllgor Cynnwys yn ystyried asesiad o'r gyfres, gan gynnwys yr elfen ieithyddol. ]

9. **Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 11 Hydref.**

Cafwyd adroddiad ar lafar o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 11eg Hydref. Nodwyd fod cofnodion y cyfarfod ar gael i'w cylchredeg i'r Aelodau.

Roedd OE wedi ei benodi'n gyfarwyddwr y cwmnïau masnachol, ac roedd IHJ wedi ymddiswyddo o'r cwmnïau.

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar rhai o brosiectau'r Bwrdd Masnachol. Roedd yr Awdurdod yn awyddus i dderbyn diweddariad pellach oddi wrth y Bwrdd Masnachol parthed cyflwr y buddsoddiadau ac asesiad y Bwrdd o'r strategaeth fasnachol bresennol.]

Cyfeiriwyd at berfformiad cronfa Sarasin a nodwyd fod y cyfalaf gwreiddiol o £15m a fuddsoddwyd wedi cynhyrchu cynnydd gwerth o £2m yn ogystal â £3m daliad difidend. Ar ôl tynnu cyfanswm o £5m o'r gronfa, roedd ei werth yn parhau oddeutu'r swm gwreiddiol o £15m.

10. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

11. **Adroddiad Cwynion**

Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.

[**Crynodeb:** Rhoddwyd diweddariad ar dri chwyn cyfredol gan nodi'r camau nesaf i swyddogion S4C.]

12. **Rhaglen Waith yr Awdurdod**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith yr Awdurdod a nodwyd fod bwriad i symud y Diwrnod i Ffwrdd o fis Tachwedd i fis Ionawr 2018 er mwyn rhoi amser i OE ddatblygu a chyflwyno strategaeth newydd.

Yn dilyn newidiadau diweddar i amserlen cyfarfodydd yr Awdurdod, nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

| | | |
|---|---|---|
| 7 Tachwedd, | 6pm | – Noson Gwylwyr, St.Mary's Priory, Y Fenni |
| 22 Tachwedd, | 9am | – Cyfarfod yr Awdurdod, Caerdydd |
| 30 Tachwedd, | 11am | – Pwyllgor Cynnwys, Caerdydd |
| 13 Rhagfyr, | 9am | – Cyfarfod yr Awdurdod |
| 13 Rhagfyr, | 3pm | – Pwyllgor Archwilio Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth, Caerdydd. |

13. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.